WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir esboniad o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yng Nghymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Rydym hefyd wedi defnyddio canlyniadau'r broses asesu cymheiriaid[1] sy'n gweithredu o fewn yr awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi faint o gynnydd y mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Awdurdod wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn eich ardal a byddwn yn rhoi cyfle i chi gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Lisa Williams a Jackie Joyce, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

1 Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad drefniadau newydd ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Mae'r broses asesu'n cynnwys cynnal hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog wedi'i gyfuno ag adolygiad a gynhelir gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o'r awdurdodau tân ac achub eraill.

# Cynnwys


Pa fath o ardal mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ei gwasanaethu? 04

A yw'r Awdurdod wedi'i reoli'n dda? 06

A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda? 10

A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn? 11

A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch? 16

Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud? 20


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 21

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 23

Atodiad 3 - Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 25

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 26

Atodiad 5 - Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 28


Atodiad 6 - Crynodeb o ganfyddiadau'r Tîm Asesu Cymheiriaid 33

Atodiad 7 - Cyfeiriadau 37

# Pa fath o ardal mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ei gwasanaethu?

1 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term 'Awdurdod' i gyfeirio ar y cyd at aelodau a staff sy'n gyfrifol am arwain, rheoli a chyflenwi'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Mae'r Awdurdod yn cynnwys y 10 awdurdod unedol cyfansoddol canlynol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg (gweler Arddangosyn 1).

**Arddangosyn 1: Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**



2 Mae'r ardal a gwmpesir yn mesur tua 2,811 cilometr sgwâr (1,085 milltir sgwâr) ac yn cynnwys amrywiaeth eang o risgiau. Mae'r ardal yn cynnwys cymoedd De Cymru, ardaloedd mawr o gefn gwlad a dwy ddinas, Caerdydd a Chasnewydd. Mae'r ffaith bod y brifddinas o fewn ei ardal yn cyflwyno problemau sylweddol i'r Awdurdod eu rheoli, yn benodol diogelwch. Mae prifddinasoedd yn denu cyfarfodydd a digwyddiadau gwleidyddol allweddol sy'n gofyn am gynllunio ychwanegol er mwyn diogelu dinasyddion.

3 Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 1,446,000 o bobl yn byw o fewn ardal yr Awdurdod mewn 605,000 o aelwydydd. Mae 179,000 o'r aelwydydd hyn wedi'u meddiannu gan bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n byw ar eu pen eu hun yn cyfrif am 30 y cant o holl gartrefi.

4 Yn 2007 roedd tua 8,750 cilometr o ffyrdd yn ardal yr Awdurdod. Yn 2007 cafwyd 444 o farwolaethau a damweiniau difrifol ar y ffyrdd yn ardal yr Awdurdod o gymharu â 415 yn 2008 pan gafwyd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd. Mae lefel y traffig ar brif ffyrdd yr Awdurdod yn cyfateb i gyfanswm o tua 13.1 biliwn o gilometrau cerbyd ac mae'r cyfraddau uchaf yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf. I osod y ffigur hwn yn ei gyd-destun, mae gan ddinas Caerdydd ei hun gyfradd o bron tair biliwn o gilometrau cerbyd.

5 Canfu Arolwg Iechyd Cymru fod canran yr oedolion a ymatebodd i'r arolwg yn y deg awdurdod unedol, ac a ddywedodd eu bod yn ysmygu yn amrywio o 20 i 30 y cant, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 24 y cant.

6 Mae proffil oedran poblogaeth yr Awdurdod, a luniwyd ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf, yn dangos bod bron 19 y cant o'r boblogaeth yn blant (9 i 15 oed) yn 2009 (ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 18 y cant) a bod bron 17 y cant yn bobl dros 65 oed (ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 19 y cant).

7 Ceir rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
2,811 km$^2$
/////////////

poblogaeth
1,446,000
/////////////

19% yn 0-15 oed
17% yn >65 oed
/////////////

# A yw'r Awdurdod wedi'i reoli'n dda?

8 Ym mis Awst llynedd lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad, sef yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am drefniadaeth yr Awdurdod a sut y caiff ei reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn mae ar gael ar wefan yr Awdurdod neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

9 Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd: 'bod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau corfforaethol cadarn ar waith sy'n sail gadarn i wella perfformiad'. Hynny yw, mae'r Awdurdod yn debygol o wella pethau ar gyfer y bobl sy'n byw yn ei ardal am fod ganddo arweinyddiaeth gref a'i fod yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

10 Roedd negeseuon allweddol yr adroddiad fel a ganlyn:

- mae gan yr Awdurdod arweinyddiaeth gydsyniol ac agored;
- caiff ei redeg yn dda ar y cyfan er y gallai atebolrwydd cyhoeddus fod yn well;
- mae'n gwneud ei orau i weithio gyda phartneriaid ond mae hyn yn cymryd cryn dipyn o amser ac nid yw'n glir pa fudd a gyflwynir i'r gymuned; ac
- mae angen iddo sicrhau bod staff yn deall y rhaglen newid ar gyfer y dyfodol ac yn cymryd rhan yn ei gweithredu.

11 Ers hynny mae'r Awdurdod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar ei wefan;
- cynnal cyfres o sioeau teithio i roi gwybod i staff am y newidiadau ar gyfer y dyfodol; ond
- oherwydd bod y broses recriwtio wedi'i rhewi nid yw wedi gallu ehangu amrywiaeth ei weithlu.

12 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £70.1 miliwn, sydd gyfystyr â £48 fesul preswylydd. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £4.8 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar; fel yn 2008-09, rhoddodd farn amodol oherwydd cafwyd anghytundeb ynghylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer balansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod a'r rhai a glustnodwyd, ond cadarnhaodd fod yr arian wedi'i wario yn briodol. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o fanylion.

13 Mae cyllideb yr Awdurdod wedi cael ei rheoli'n dda dros y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld tanwariant o £1.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2010-11). Mae hyn yn sail gadarn iddo wrth wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael iddo.

14 Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl. Mae'r Awdurdod yn gwneud paratoadau synhwyrol a sefydlodd Weithgor Cyllid a ystyriodd yr holl opsiynau posibl o ran cyllid a gwasanaethau. Caiff ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ei ategu gan y Cynllun Pobl a'r Cynllun Rheoli Asedau. Nod ei gyllideb ar gyfer 2011-12 yw sicrhau £1.54 miliwn o arbedion effeithlonrwydd drwy amrywiaeth o weithgareddau a ddatblygwyd drwy'r Gweithgor Cyllid a gwaith ymgynghori â staff ac a gafodd gytundeb yr Awdurdod. Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos

lleihad pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 a 2013-14 a gaiff effaith ganlyniadol ar arian y gwasanaeth tân.

15 Yn 2009, gallai ychydig dros 17 y cant o boblogaeth ardal yr Awdurdod siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig llai na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau tân ac achub i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n eu darparu sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob awdurdod tân ac achub gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai awdurdod tân ac achub wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.

16 Mae'r Bwrdd wedi canmol yr Awdurdod am ei Ganllawiau Cyffredinol newydd ar gyfer Trydydd Partïon ar oblygiadau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch a'r Iaith Gymraeg. Canmolwyd yr Awdurdod hefyd am ei ymrwymiad parhaus i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ac yn cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith erbyn diwedd 2010-11. Canfu'r Bwrdd fod angen rhoi sylw i dri mater ar wefan yr Awdurdod er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i ddatblygu cynllun gweithredu i gywiro'r materion hyn. Mae gan yr Awdurdod darged penodol o recriwtio wyth siaradwr Cymraeg i bob un o'r wyth swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn ei Ystafell Rheoli Tanau erbyn 2013. Mae pump eisoes wedi'u penodi, ond oherwydd bod y broses recriwtio wedi'i rhewi ar hyn o bryd, ceir risg bosibl na fydd yr Awdurdod yn gallu cyflawni'r targed.

# A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

17 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau a sut y byddant yn mynd ati i wneud hynny.

18 Gweledigaeth yr Awdurdod yw 'sicrhau mai ein cymunedau yw'r lleoedd mwyaf diogel i fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy'. Er mwyn cyflawni hyn mae ganddo nifer o nodau hirsefydledig sy'n gyson ar y cyfan â blaenoriaethau strategol cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer awdurdodau tân ac achub a'u nod yw:

- sicrhau bod pob un o'n cymunedau yn ymwybodol o'r risgiau;
- gweithio gyda phartneriaid i leihau'r risgiau;
- targedu ein gwasanaethau yn ôl yr angen; a
- rhoi ymateb ardderchog a chyflym pan fo angen ein gwasanaethau er mwyn achub a diogelu.

19 Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei amcanion gwella erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi ac eleni cyhoeddodd ei swp cyntaf o amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ym mis Ebrill 2011. Mae'r amcanion gwella yn seiliedig ar y pum thema allweddol ganlynol a cheir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 5:

- diogelu cymunedau: gostwng nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd;
- denu a datblygu pobl: parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol;
- defnyddio adnoddau'n effeithiol: sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau;
- gwella'r sefydliad: gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewnol gan sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl; a
- chynaliadwyedd: hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau.

20 Roeddem am sicrhau bod yr Awdurdod yn gwybod yn iawn sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella yn ôl y bwriad. Nodir themâu'r amcanion gwella yn glir yn ei Gynllun ac mae wedi nodi sut y bydd yn gwybod a fu'n llwyddiannus er mwyn caniatáu iddo ddechrau mesur pa fuddiannau a gyflawnir yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd rhai o'i amcanion yn anodd eu mesur yn y ffordd hon ond mae'n datblygu mesurau a fydd ar waith erbyn mis Ebrill 2011. Dylai dangosyddion o'r fath gynnwys mesurau ansoddol a meintiol fel y gellir nodi a gwerthuso canlyniadau cymunedol. Byddwn yn edrych ar y trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r amcanion gwella yn ystod y misoedd nesaf.

21 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd yr Awdurdod wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Canfuwyd y datblygwyd y blaenoriaethau gan weithgor o aelodau ac yna cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt dros gyfnod o 12 wythnos yn ystod yr haf. Ar ôl yr ymgynghoriad, newidiwyd cynigion i adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd. Mae adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid yn nodi 'canfu'r Tîm Asesu Cymheiriaid broses ymgysylltu a datblygu amrywiol ar gyfer 2011-2012 .... gan gynnwys grwpiau datblygu uwch reolwyr, gweithdai mewnol, arolygon ac ymweliadau â gorsafoedd'. Ceir rhagor o wybodaeth am adroddiadau'r Tîm Asesu Perfformiad yn Atodiad 6.

22 Yn olaf gofynnwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Awdurdod yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Mae'r Awdurdod wedi cymryd nifer o gamau gweithredu ac mae'n parhau i wneud hynny er mwyn nodi amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ateb y toriadau i'w gyllid a datblygu trefniadau rheoli perfformiad sy'n cynnwys ffocws clir ar ganlyniadau.

23 Canfuwyd bod y camau gweithredu arfaethedig ym mhrosiectau'r Cynllun Lleihau Risg wedi'u datblygu'n ofalus a'u bod yn agweddau ar ddull cydlynol o gynllunio a rheoli perfformiad. Mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd y dull newydd hwn yn cyflawni amcanion gwella'r Awdurdod, a byddwn yn ystyried hyn yn fanylach y flwyddyn nesaf.

24 Mae angen i bob awdurdod tân ac achub gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well. Nododd adroddiad diweddar gan y Tîm Asesu Perfformiad fod yr Awdurdod yn 'cydnabod bod bylchau yn ei broses casglu data. Cred yr Awdurdod y bydd datblygu 'arsyllfeydd data' yn y dyfodol yn datrys y broblem hon.' O ganlyniad i'n gwaith gwyddom hefyd fod newidiadau'n cael eu gwneud i'r systemau ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth am berfformiad wrth i fesurau newydd gael eu cyflwyno i fonitro'r broses o weithredu'r amcanion gwella.

25 Canfuwyd o'n gwaith archwilio ar y dangosyddion a'r data perfformiad diweddaraf bod ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodwyd yn foddhaol gan fod pob un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu a chyflwyno data arnynt i Lywodraeth y Cynulliad wedi'u nodi'n gywir. Fodd bynnag, canfuwyd bod y wybodaeth a ryddheir yn gyhoeddus yn tueddu i drafod yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud yn hytrach na ph'un a yw'n gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau ar gyfer pobl ond mae'r Awdurdod yn bwriadu newid hyn o fis Ebrill 2011.

26 Mae'n rhy fuan i ni farnu p'un a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni ai peidio. Byddwn yn edrych ar y cynlluniau dros y misoedd nesaf ond yr hyn y gallwn ddweud yw bod dull gweithredu'r Awdurdod yn gall, ac os gwnaiff benderfyniadau anodd ynghylch strwythurau darparu gwasanaethau a'u gweithredu'n llwyddiannus mae'n debygol o leihau costau a chyflawni ei amcanion gwella.

# A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda?

27 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan ddeddfwriaeth a'r weledigaeth a bennwyd gan Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau canlynol yn cwmpasu'r prif bethau y mae awdurdodau tân ac achub yn eu gwneud:

- A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?
- A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

28 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried yr amcanion gwella newydd ar gyfer 2011-12 a'r meysydd allweddol ar gyfer 2010-11. Byddwn yn edrych ar amcanion gwella yn fanylach y flwyddyn nesaf er mwyn asesu a sefydlwyd llinell sylfaen o ran perfformiad ac, os yn bosibl, i ba raddau mae perfformiad wedi gwella.

# A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?

29 Ym mis Rhagfyr 2010 lansiodd Llywodraeth y Cynulliad strategaeth newydd i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch tân ac atal tanau. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd awdurdodau yn addysgu pobl ifanc am beryglon tân a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân. Mae hefyd yn anelu at annog plant a phobl ifanc i beidio ag ymddwyn yn wrthgymdeithasol a chyflawni troseddau yn ymwneud â thân, megis galwadau ffug neu danau bwriadol. Mae hyn yn cefnogi'r flaenoriaeth a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod gan Lywodraeth y Cynulliad i achub bywydau a diogelu cymunedau ac er mwyn ei helpu i wneud hyn, darparodd dros £1 miliwn i'r Awdurdod yn 2009-10 ar gyfer gwaith ataliol.

30 Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau rhag digwydd a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd. Mae'r Awdurdod wedi gosod amcan gwella iddo ei hun i ostwng nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd yn ystod 2010-11 drwy:

- nodi a thargedu grwpiau agored i niwed ar gyfer Profion Diogelwch Tân yn y Cartref;
- ymchwilio i bartneriaethau diogelwch cymunedol presennol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd;
- datblygu trefniadau gweithio agosach gydag asiantaethau partner;
- cynnal ei rôl fel partner â grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru;
- parhau i ddatblygu prosesau Diogelwch Tân Deddfwriaethol drwy:
  - wella prosesau busnes yn yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol;
  - adeiladu ar bartneriaethau presennol â busnesau a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gorchymyn Diogelwch Tân;
  - defnyddio'r Rhaglen Arolygu ar Sail Risg i dargedu eiddo masnachol sy'n peri'r risg uchaf o niwed amgylcheddol pe byddai tân yn cydio er mwyn lleihau'r risg honno; a
- chymryd camau rhagweithiol i ddatblygu partneriaethau Diogelwch Tân presennol mewn busnesau a masnach.

31 Er nad oes gan yr Awdurdod ddogfen Strategaeth Diogelwch Cymunedol, mae ei flaenoriaethau a amlinellir uchod yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer ei weithgarwch diogelwch cymunedol. Rydym wedi edrych ar feysydd craidd lleihau tanau domestig, lleihau tanau annomestig, lleihau tanau bwriadol/troseddau, gwaith ieuenctid a lleihau damweiniau traffig ar y ffyrdd yn fwy manwl isod. Yn ogystal, adolygodd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid weithgareddau diogelwch cymunedol yr Awdurdod yn ystod hydref 2010 a gwelir crynodeb o'u canfyddiadau yn Atodiad 6.

## Lleihau tanau yn y cartref

32 Ledled Cymru nifer fach o bobl a fu farw mewn tanau yn y cartref, ac mae wedi parhau felly dros y blynyddoedd diwethaf: bu farw 14 o bobl yn ystod 2006-07 cyn cynyddu i 22 yn ystod 2007-08, a syrthiodd drachefn i 18 o bobl yn ystod 2009-10. Yn yr un modd, mae nifer yr anafiadau a gafwyd yn ystod tanau yn y cartref wedi lleihau yng Nghymru o 358 yn 2004-05 i 185 yn 2009-10.

33 Er mwyn gostwng nifer y tanau yn y cartref, mae 'Profion Diogelwch Tân yn y Cartref' ar gael am ddim i bob aelwyd er mwyn canfod risgiau a rhoi cyngor ac awgrymiadau ar sut i wneud cartrefi'n fwy diogel. Mae'r Awdurdod yn ceisio targedu'r unigolion hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân yn y cartref ond mae'n cydnabod bod lle i wella ac mae hwn yn faes â blaenoriaeth ar gyfer 2010-11. Cyflwynwyd trefniadau gweithio ar y cyd â rhai partneriaid allweddol i nodi'r rheini sy'n wynebu'r

risg fwyaf a hefyd i gynnal Profion Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd o ganfod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân yn y cartref a rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer Profion Diogelwch Tân yn y Cartref gan ddefnyddio gwybodaeth well am ddemograffeg cymdeithasol gwell (cronfa ddata MOSAIC). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2009-10) cynhaliwyd tua 24,000 o Brofion Diogelwch Tân yn y Cartref a phennwyd targed o 23,000 ar gyfer eleni, 2010-11.

34 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd ers 2004-05:

- mae cyfanswm y marwolaethau oherwydd tanau wedi lleihau'n sylweddol gan 70 y cant (o 10 yn 2004-05 i dair yn 2009-10);
- mae nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau wedi aros fwy neu lai'r un fath, sef tua 105 o anafiadau ond cafwyd cynnydd yng nghyfran yr anafiadau a gafwyd mewn tanau a ddechreuwyd yn fwriadol (cynyddodd 75 y cant o 15 i 26 yn ystod 2009-10) o gymharu â thanau damweiniol (gostyngodd 15 y cant o 93 i 79 yn ystod 2009-10) dros y cyfnod hwn;
- mae nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng 10 y cant (o 1,100 o achosion yn 2004-05 i 992 yn 2009-10);
- mae nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt wedi lleihau yn raddol tua chwech y cant (o 856 yn 2004-05 i 801 yn 2009-10); a
- chafwyd lleihad graddol o tua 22 y cant yn nifer y tanau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn cartrefi (o 244 yn ystod 2004-05 i 191 yn ystod 2009-10).

35 Fodd bynnag, er bod y mesurau uchod yn dangos y cafwyd rhywfaint o lwyddiant, erys heriau i'r Awdurdod eu hwynebu gan nad oedd larwm mwg wedi'i osod yn dros hanner y cartrefi y bu'n rhaid mynd iddynt i drin tân yn ystod 2009-10. Fel y nodwyd uchod mae'r Awdurdod yn darparu larymau mwg am ddim fel rhan o'i Brofion Diogelwch Tân yn y Cartref ac eleni mae'n bwriadu targedu'r profion hyn yn fwy i gyrraedd y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf.

36 Ni chaiff gwybodaeth am y Profion Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhelir yn yr Awdurdod yn gyffredinol (o ran targedu a'r nifer a gwblhawyd) ei chyflwyno mwyach i aelodau'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad na'r Awdurdod cyfan. Mae'r ffaith na chaiff y manylion hyn eu rhannu ar y lefel uchaf yn golygu ei bod yn anodd i uwch aelodau o staff ac aelodau'r Awdurdod fonitro pa mor dda mae'r Awdurdod yn gyffredinol yn perfformio ar un o'i feysydd allweddol â blaenoriaeth.

37 Mae'r Awdurdod, ynghyd â dau awdurdod tân ac achub arall Cymru, wedi bod yn chwarae rhan allweddol yn y drafodaeth bresennol am fudd systemau chwistrellu. Maent wedi bod yn lobïo ers 2007 am newid i'r ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i systemau chwistrellu preswyl gael eu gosod mewn eiddo domestig. Cyhoeddwyd Mesur Aelod Preifat, sef Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno ym mis Gorffennaf 2010 ac ar hyn o bryd mae Pwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad yn craffu ar y Mesur arfaethedig.

## Lleihau tanau annomestig

38 Ledled Cymru bu farw dau berson oherwydd tanau annedd annomestig damweiniol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae nifer y bobl a anafwyd oherwydd tanau annomestig wedi lleihau hefyd o 59 yn 2004-05 i 22 yn 2009-10.

39 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith. Mae hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymryd camau gorfodi pan fydd yn ystyried bod angen, er enghraifft os ceir risg ddifrifol nad yw'n cael ei rheoli.

40 Mae tua 42,000 o safleoedd annomestig yn ardal yr Awdurdod, ac mae tua 27,000 o'r rhain wedi'u cofnodi ar gronfa ddata'r Awdurdod ar hyn o bryd. O'r rhain mae 570 wedi'u dosbarthu fel risg uchel iawn neu risg uchel, 2,996 wedi'u dosbarthu fel risg ganolig ac mae 2,286 yn risg isel neu'n risg isel iawn. Aseswyd nad oedd angen ail-arolygiad a raglennwyd ar gyfer 13,700 o safleoedd annomestig. Mae'r Awdurdod o'r farn bod 7,600 o eiddo pellach o risg is, ac mae wrthi'n dosbarthu'r rhain. Lle ni chedwir data risg am safleoedd ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu rhaglen wyth mlynedd i'w hadolygu. Mae'r Awdurdod o'r farn fod y safleoedd hyn yn risg is gan nad oeddent wedi'u cynnwys o fewn y ddeddfwriaeth diogelwch tân flaenorol.

41 Yn ystod 2009-10 cynhaliwyd tua 2,000 o brofion diogelwch tân ar safleoedd, sy'n cyfateb i tua phump y cant o'r holl safleoedd busnes. Cymerwyd camau gweithredu yn dros 1,400 o'r safleoedd hyn. Defnyddir manylion a gesglir am safleoedd yn ystod profion i ddarparu gwybodaeth i griwiau a allai gael eu galw i argyfwng yn y safle (ac o ganlyniad leihau'r risgiau i ddiffoddwyr tân).

42 Ar hyn o bryd mae'r Adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol wrthi'n adolygu a newid sut y mae'n gweithio gan gynnwys datblygu adnoddau rheoli perfformiad newydd er mwyn adlewyrchu gwaith presennol yr Adran yn well. O ganlyniad i gyfyngiadau'r system reoli diogelwch tân bresennol, nid yw'n dasg syml i nodi ar hyn o bryd faint o brofion yr oedd angen eu cynnal na faint a gynhaliwyd fesul categori risg ac felly mae'n bwysig cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl. Mae'r broses ar gyfer prynu system gwybodaeth reoli diogelwch tân newydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, gyda'r posibilrwydd o brynu yn 2011-12.

43 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar leihau galwadau tân diangen a rhybuddion tân diangen. Mae'n ceisio lleihau galwadau diangen o safleoedd lle gosodwyd systemau synhwyro tân awtomatig oherwydd bod anfon injan/offer tân i'r safleoedd hynny pan nad oes argyfwng yn wastraff adnoddau a gallai annog pobl i anwybyddu larymau a pheidio â gwagio adeiladau. Mae nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt wedi lleihau'n gyson dros y chwe blynedd diwethaf, ac yn ystod 2009-10 ymatebwyd i 3,809, neu 11 o alwadau diangen y dydd.

44 Mae'r Awdurdod yn ymgynghorai statudol ar gyfer nifer o faterion yn cynnwys tai, trwyddedu ac adeiladau. Er enghraifft, ymgynghorir â'r Awdurdod ynghylch Rheoliadau Adeiladu[2] sy'n ymwneud â sicrhau bod adeiladau'n ddiogel, yn iach, yn hygyrch ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

45 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd ers 2004-05:

- ni fu marwolaethau mewn tanau annedd annomestig (bu un yn ystod 2004-05);

2 Mae Rheoliadau Adeiladu'n pennu safonau ar gyfer dylunio ac adeiladu sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o adeiladau newydd a llawer o addasiadau i adeiladau presennol yng Nghymru a Lloegr.

- mae nifer y bobl a anafwyd wedi lleihau o 12 i 11 yn 2009-10 ond bu'r ffigur hwn mor isel â phedwar (200607) ac mor uchel â 14 (2008-09); a
- chafwyd lleihad graddol o tua chwech y cant yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig yr ymatebwyd iddynt (o 605 i 569 yn 2009-10) sy'n adlewyrchu darlun Cymru gyfan ond ar gyfradd llawer yn is (21 y cant oedd y lleihad cyfartalog yng Nghymru).

## Tanau bwriadol a lleihau troseddau

46 Mae nifer y tanau bwriadol yng Nghymru wedi lleihau traean ers 2004-05 o 19,709 i 12,902. Yn ystod 2009-10, dechreuwyd dros ddwy ran o dair o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn fwriadol (12,902 o danau).

47 Dechreuwyd tua 80 y cant o'r tanau yn fwriadol o fewn ardal yr Awdurdod hwn yn ystod 2009-10 er bod y gyfradd wedi gostwng dros y chwe mlynedd diwethaf o 85 y cant yn 2004-05. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan, sef 75 y cant yn 2004-05 a 67 y cant yn 2009-10.

48 Mae'r Awdurdod yn ymrwymo adnoddau i fynd i'r afael â thanau bwriadol a gwaith troseddau tân. Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a nifer o brosiectau o fewn maes diogelwch cymunedol, yn cynnwys:

- Prosiect 'Bernie' a lansiwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad ieuenctid wrth gynnau tanau glaswellt bwriadol;
- ymweld ag ysgolion cynradd i annog plant i roi gwybod am achosion o danau bwriadol yn eu hysgolion (Sgwad Diogelwch);
- cynnal rhaglen o archwiliadau mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus er mwyn helpu i sicrhau bod yr adeiladau hyn yn gallu gwrthsefyll ymosodiadau gan fandaliaid a phobl sy'n cynnau tanau bwriadol; a
- chynnal cysylltiadau agos â phob un o'r 10 o Dimau Troseddau Ieuenctid yn ardal yr Awdurdod er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn cynlluniau ieuenctid amrywiol megis Phoenix, sef rhaglen cynhwysiant ieuenctid a anelir at droseddwyr ifanc.

49 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd ers 2004-05:

- mae nifer y marwolaethau o ganlyniad i danau bwriadol yn fach iawn (dwy farwolaeth bob blwyddyn ers 2006-07 a chyfanswm o 11 ers 2004-05);
- cafwyd gwelliant sylweddol yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt, sydd wedi lleihau traean o 12,543 i 8,534 yn 2009-10; ond
- er bod nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol yn fach cafwyd cynnydd graddol o 29 o anafiadau yn ystod 2004-05 i 34 yn ystod 2009-10.

## Gwaith ieuenctid

50 Ceir nifer o raglenni sydd wedi'u targedu at blant a phobl ifanc mewn perthynas ag atal tanau a diogelwch ar y ffordd. Ymysg y rhaglenni na restrir uchod mae Pass Plus Cymru a CSI Cymru, sydd wedi'u hanelu at yrwyr ifanc er mwyn lleihau eu risg o gael eu hanafu mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd. Cynhaliwyd 144 o ddigwyddiadau i yrwyr ifanc gan gynnwys CSI Cymru, diwrnod ymwybyddiaeth o droseddau cerbydau, 'Ride Out Ride Right', Megadrive, Opsiynau Gwregys Diogelwch Pass Plus a mentrau diogelwch ar y ffyrdd eraill yn ystod 2009-10.

51 Mae 10 o grwpiau Diffoddwyr Tân Ifanc ledled yr ardal. Mae rhaglen addysg ar waith ac mae elfennau ohoni'n cysylltu â chyfnodau allweddol un a dau o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ymwelwyd â 449 o ysgolion yn ystod 2009-10. Yn ogystal, darperir adnoddau gan grŵp addysg Cymru gyfan y gwasanaeth tân ac achub ar gyfer cyfnodau allweddol tri a phedwar.

52 Mae rhaglenni penodol fel Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE) a Firesafe wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n dechrau tanau (darparwyd 67 o raglenni FACE yn ystod 2009-10).

## Diogelwch ar y Ffyrdd

53 Er bod cyfanswm nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt ledled Cymru wedi lleihau 27 y cant, ers 2004-05, dros yr un cyfnod mae nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi cynyddu chwech y cant.

54 Yn ystod 2008 cafwyd 1,190 o farwolaethau a damweiniau ar ffyrdd Cymru sy'n ostyngiad o naw y cant ers 2003 (1,302). O ran anafiadau yn 2009, anafwyd 10,354 o bobl ar ffyrdd Cymru o gymharu â 13,687 yn 2004, sy'n ostyngiad o 24 y cant.

55 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, ond mae'n cydweithio gyda'r heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru.

56 Mae'r Awdurdod yn cynnal nifer o fentrau a gynllunnir i leihau nifer y damweiniau ffordd gan gynnwys:

- Effaith Domino - pecyn addysg ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 i'w hysbysu o effeithiau ymddygiad amhriodol mewn cerbydau, p'un ai fel teithiwr neu fel gyrrwr.
- Operation Cruise - rhaglen ymgysylltu a ddefnyddir gan Reolwr Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod i ryngweithio â'r grŵp uchaf ei risg (gyrwyr 17 i 24 oed) yn yr ardaloedd lle maent yn ymgasglu megis meysydd parcio siopau ar gyrion y dref neu ddigwyddiadau gyrru oddi ar y ffordd swyddogol. Nod y rhaglen hon yw codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau ymddygiad amhriodol gan yrwyr drwy ddefnyddio astudiaethau achos a thystiolaeth bersonol. Mae un o bob pedwar gyrrwr sy'n marw mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd o dan 25 oed, ond dim ond 10 y cant o'r boblogaeth o yrwyr sydd o dan 25 oed. Mae'r rhan fwyaf o farwolaethau ymysg pobl rhwng 17 a 25 oed yn digwydd ar y ffyrdd.
- Superbike Safety - menter yn seiliedig ar ryngweithio â defnyddwyr beiciau cyflym. Mae'r rhaglen hon wedi cael cyllid a chefnogaeth lawn gan Lywodraeth y Cynulliad. Nod y prosiect beiciau cyflym yw annog beicwyr modur i fynychu cyrsiau hyfforddiant beicwyr modur a noddir gan yr heddlu. Cynhelir y cyrsiau hyn ar hyn o bryd ond ychydig o feicwyr sy'n eu dilyn.

57 Er bod cyfanswm y tanau yr ymatebodd yr Awdurdod iddynt wedi lleihau 28 y cant ers 2004-05 yn unol â chyfartaledd Cymru (o 14,747 i 10,684 yn 2009-10), mae nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebodd iddynt wedi cynyddu wyth y cant o 1,268 i 1,372 dros yr un cyfnod (ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru o chwech y cant). Fodd bynnag, mae'r mesurau a nodir uchod yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd:

- yn 2008 cafwyd 415 o farwolaethau a damweiniau difrifol ar y ffyrdd yn ardal yr Awdurdod o gymharu â 498 yn 2003, sy'n ostyngiad o 17 y cant; ac
- yn 2009 cafodd 4,176 o bobl anafiadau ar ffyrdd yn ardal yr Awdurdod o gymharu â 6,029 yn 2004, sy'n ostyngiad o 31 y cant.

# A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

58 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen bod yn barod i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, o danau i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a therfysgaeth. Yn ystod 2009-10 ymatebodd i gyfanswm o 44,500 o alwadau brys gan fynd i tua 22,500 o ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys 15,500 o danau a digwyddiadau gwasanaeth arbennig; roedd 73 y cant o'r achosion hyn yn danau a'r 27 y cant arall yn achosion heb fod yn gysylltiedig â thanau megis damweiniau traffig ar y ffyrdd, llifogydd a galwadau diangen.

59 Er mwyn ymateb i geisiadau am gymorth mae gan yr Awdurdod:

- Tua 1,370 o staff gweithredol a 265 o staff cymorth. Mae diogelwch yn flaenoriaeth allweddol, ac mae hyfforddi criwiau i ddefnyddio'r technegau a'r offer diweddaraf yn hanfodol er mwyn ymateb yn llwyddiannus i amryw o ddigwyddiadau.
- Pum deg o orsafoedd tân ac achub lle mae'r rhan fwyaf o aelodau'r staff yn gweithio a lle caiff y rhan fwyaf o'r cyfarpar ei gadw. Yn ystod 2007 dechreuodd yr Awdurdod gynllun i newid pedair gorsaf i system lle mae Staff ar Ddyletswydd yn ôl Galw); cyflawnwyd hyn mewn dwy orsaf a bydd y ddwy arall yn dau a bydd dau arall yn trosglwyddo i system staff ar ddyletswydd yn ôl galw yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i recriwtio staff ar ddyletswydd yn ôl galw a bellach mae'n cyflawni argaeledd o 98 y cant ar gyfartaledd o ddiffoddwyr tân ar draws pob un o'i orsafoedd:
  - mae gan 10 ohonynt griwiau shifft llawn amser (staff yn yr orsaf 24 awr y dydd);
  - mae gan ddwy griwiau dydd sy'n newid i griwiau ar ddyletswydd yn ôl galw (gyda staff wedi'u lleoli yn yr orsaf am ran o'r dydd a chyda staff ar ddyletswydd yn ôl galw ar adegau tawelach);
  - mae 28 â staff sydd ar ddyletswydd yn ôl galw (staff yn ymateb i ddigwyddiadau fel y bo angen ac sydd ond yn gweithio yn yr orsaf am nifer fach o oriau bob wythnos); ac
  - mae 10 yn aml-ddyletswydd gan weithio systemau criwiau llawn amser a chriwiau ar ddyletswydd yn ôl galw.
- Mae gan yr Awdurdod 95 ysgol ddŵr yn cynnwys chwech a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant a 12 wrth gefn; pum darn o gyfarpar awyr (yn cynnwys un wrth gefn); 10 cerbyd achub (yn cynnwys un wrth gefn); 61 o gerbydau cymorth gweithredol; a fflyd o gerbydau ysgafn yn cynnwys faniau a cheir swyddogion, sy'n cael eu cynnal a'u cadw (yn cynnwys gwaith mawr ac atgyweiriadau mawr) mewn gweithdy un safle neu defnyddir 'gweithdy' symudol ar gyfer archwiliadau mewn gorsafoedd a gwaith atgyweirio rheolaidd. Defnyddir cerbydau wrth gefn pan fo cerbydau rheng flaen yn cael eu trwsio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau.

60 Mae Safon Gwasanaeth (y Safon) Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Ymateb i Danau yn y Cartref wedi cael ei defnyddio ers 2006 i fesur pa mor dda y mae'r Awdurdod yn ymateb i danau mewn anheddau. Nod y Safon oedd sicrhau bod y gwasanaeth tân yn ymateb i danau yn 80 y cant o gartrefi Cymru mewn 10 munud (pum munud lle dengys modelu cyfrifiadurol bod risg uwch i fywyd), ynghyd â gwaith ataliol gwell ar gyfer yr 20 y cant o anheddau nad oeddent yn rhan o'r Safon. Ar ôl adolygu'r Safon yn ystod 2010, ymysg pryderon

am wendidau posibl, datblygwyd dogfen arall, sef 'Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Ymateb i Danau mewn Anheddau' sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd.

61 Un o amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12 yw 'datblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n arddel ein gwerthoedd'. Mae amcan eleni (2010-11) o 'ddenu, cadw, datblygu a chynnal iechyd a lles ei bobl' yn ffordd allweddol i'r Awdurdod baratoi ei hun fel y gall ymateb i geisiadau am gymorth ac mae ei gynlluniau i wneud hyn yn cynnwys:

- cysoni prosesau denu a recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân llawn amser a diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw;
- rhoi cynlluniau potensial uchel, prosesau cynllunio olyniaeth a chynllunio'r gweithlu ar waith; a
- gwella perfformiad yn barhaus o ran gostwng damweiniau drwy annog agwedd ragweithiol tuag at iechyd, diogelwch a lles.

62 Prynwyd cyfarpar diogelu personol newydd ar gyfer diffoddwyr tanau yn ddiweddar ledled Cymru gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod hefyd wedi prynu 461 o setiau cyfarpar anadlu newydd i ddisodli'r hen rai yn ystod 2010-11.

63 Yn ystod 2009-10 cafodd 91 o aelodau personél eu hanafu 'ar ddyletswydd' sydd yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol pan anafwyd 80 yn unig. O ganlyniad i'r anafiadau hyn cafodd 1,251 o ddiwrnodau eu colli (o gymharu â 1,448 yn 2008-09) gan staff llawn amser. Mae'r rhaglen archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewn gorsafoedd ac adrannau wedi parhau drwy gydol y flwyddyn.

64 Yn ystod 2009-10 collwyd tua 9,700 o ddiwrnodau/shifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch sydd yn lleihad o bron 480 o ddiwrnodau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (pedwar y cant) ac sy'n gyfwerth â bron wyth diwrnod y pen. Staff rheoli sydd â'r gyfradd uchaf o absenoldeb oherwydd salwch â 15 diwrnod y pen ar gyfartaledd o gymharu â staff gweithredol sydd â saith niwrnod a staff anweithredol sydd â 10 diwrnod. Ymddengys fod problem benodol â staff rheoli oherwydd hwy sydd â'r lefel uchaf o absenoldeb oherwydd salwch ac mae'r gyfradd hon wedi cynyddu rhwng 2008-09 a 2009-10 (o 740 i 854 o ddiwrnodau/shifftiau sef cynnydd o dros 15 y cant) pan fo categorïau staff eraill wedi gostwng.

65 Fel rhan o broses y Tîm Adolygu Cymheiriaid, adolygwyd trefniadau'r Awdurdod o ran Iechyd, Diogelwch a Lles a Hyfforddi, Datblygu ac Asesu yn ystod hydref 2009. Daethpwyd i'r casgliad bod 'trefniadau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau o ran iechyd, diogelwch a lles ac ar gyfer hyfforddi, datblygu ac asesu yn cyfateb i, ac mewn rhai meysydd, yn agos at ragori ar, yr holl ddisgrifyddion 'sefydledig' yn adrannau perthnasol y canllawiau ar sicrwydd gweithredol y gwasanaethau a gyflenwir' a cheir canfyddiadau pellach yn Atodiad 6.

66 Mae'n hanfodol bod criwiau tân yn gallu cael gafael ar gymaint o wybodaeth am ddigwyddiadau â phosibl ac er mwyn gwneud hyn mae'r Awdurdod wedi gosod systemau cyfrifiadurol soffistigedig yng nghabiau pob un o'r cerbydau tân rheng flaen (80 i gyd). Mae hyn yn cynnwys cysylltiad data di-wifr er mwyn sicrhau bod diffoddwyr tân yn gallu cael gwybodaeth amser real a gedwir ym mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r Systemau Data ar gyfer Cerbydau yn cynnwys sgriniau cyffwrdd cryf, sy'n galluogi diffoddwyr tân i gael gafael ar

wybodaeth a allai achub bywydau - gan gynnwys cynlluniau adeiladau a risgiau, manylebau dylunio llawer o geir, mapiau ffyrdd a'r priodoleddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mwy na 30,000 o sylweddau cemegol - yn syth o gerbyd y cyfarpar tân. Gosodir argraffydd cyfrifiadurol ym mhob cerbyd er mwyn galluogi criwiau tân i wneud copi caled o'r wybodaeth ar y ffordd i ddigwyddiad neu yn ystod digwyddiad.

67 Darperir hyfforddiant yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu bwrpasol Porth Caerdydd sydd ag amrywiaeth eang o adnoddau hyfforddi yn ymwneud â thân. Gellir creu amrywiaeth o wahanol senarios tân, gan gynnwys efelychu tanau Nwy Petrolewm Hylifol (LPG) mewn amgylchedd diwydiannol, a thanau mewn tŷ, ystafell wely a chegin a gellir gwella eu heffaith â mwg synthetig. Yn ogystal â hyfforddiant yn seiliedig ar dân, mae cyfleusterau yn y Ganolfan ar gyfer achub â rhaff ac ysgolion ar dŵr a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n dynwared wyneb craig, peilon trydan ac adeilad traddodiadol ar dair lefel. Ceir ardal ar gyfer hyfforddiant yn ymwneud â damweiniau traffig ar y ffyrdd hefyd, gan gynnwys ffos goncrid y gellir ei llenwi â dŵr, achub anifeiliaid mawr a dulliau achub technegol arbenigol. Cyflwynir rhaglen hyfforddiant gydweithredol ledled Cymru o fis Ionawr 2011.

68 Caiff staff eu hyfforddi hefyd i ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol yn ogystal â digwyddiadau lleol. Ar ôl ymosodiadau terfysgol 11 Medi 2001 yn Unol Daleithiau America, rhoddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig raglen ar waith i sicrhau bod gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU y gallu i ymdopi â digwyddiadau o'r un maint pe byddent yn digwydd yma. Gelwid y rhaglen yn New Dimension (ND) ac mae wedi gwella'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau aflonyddol mawr gan gynnwys terfysgaeth. O ganlyniad i'r rhaglen ND lleolwyd cerbydau a chyfarpar arbenigol yng Nghymru gan gynnwys Pympiau Cyfaint Uchel, Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau a chyfarpar Dadheintio. Mae'r cerbydau a'r cyfarpar yn Ne Cymru gwerth tua £2.5 miliwn.

69 Mae'r rhaglen ND hefyd yn darparu adnoddau arbenigol, er enghraifft, Gwasanaethau Chwilio ac Achub Trefol. Mae gan y timau chwilio ac achub trefol y gallu i gyflawni gweithrediadau achub arbenigol o ddigwyddiadau lle mae adeiladau wedi cwympo, lleoedd cyfyng a digwyddiadau trafnidiaeth ar raddfa fawr. Mae 20 o dimau chwilio ac achub trefol ledled y DU ac mae un ohonynt yng Nghymru. Mae tîm chwilio ac achub trefol Cymru yn cynnwys aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r tîm ar gael bob amser i ymateb ac mae'n hyfforddi gyda'i gilydd ddwywaith y mis.

70 Er mwyn gallu ymateb i alw lleol a chenedlaethol mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o gynlluniau wrth gefn i'w helpu i reoli pan fo'r galw am ei wasanaethau yn uchel. Mae'n rhannu'r cynlluniau hyn â phartneriaid, megis yr heddlu, ambiwlansys a gwylwyr y glannau ac mae wedi cychwyn cyfres o brofion amlasiantaethol ar y cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac mae wedi cynnal ymarferion hyfforddi ar y cyd.

71 Yn ystod 2009-10 cafodd yr ystafell Rheoli Tanau tua 44,500 o alwadau. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau ymdrin â galwadau mae'r ystafell Rheoli Tanau wedi cael ei hadleoli a'i gwella yn ddiweddar. Caiff prosiect cydnerthu Cymru gyfan newydd ei roi ar waith yn ystod 2011-12. Bydd hwn yn darparu mwy o adnoddau wrth gefn a chydnerthedd rhwng y tair ystafell Rheoli Tanau yng Nghymru. Cydnerthwyd yr Awdurdod drwy ddefnyddio system radio Airwave er mwyn sicrhau bod gwell cysylltiad â gwasanaethau brys eraill.

72 Mae nifer y galwadau maleisus a dderbyniwyd gan yr Awdurdod wedi lleihau ers 2004-05 pan dderbyniodd 3,083 o gymharu â 2,209 yn 2009-10. Yn ogystal â gostyngiad yn nifer y galwadau maleisus y mae'n eu derbyn, mae canran y galwadau maleisus yr ymatebir iddynt wedi gostwng dros yr un cyfnod hefyd (31 y cant o gymharu â 27 y cant). Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi cymryd camau erlyn llwyddiannus yn ddiweddar yn erbyn galwr ffug parhaus i wasanaethau brys yn Ne Cymru, yn cynnwys y gwasanaeth tân ac achub.

73 Mae gan yr Awdurdod broses dysgu gweithredol gynhwysfawr sy'n cynnwys anfon swyddogion annibynnol i ddigwyddiadau penodol i'w harsylwi a rhoi cyngor i'r swyddogion cyfrifol pe bai angen. Defnyddir gwybodaeth a gesglir i lywio hyfforddiant a gwella iechyd a diogelwch.

# Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud?

74 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

75 Rydym o'r farn bod angen i'r Awdurdod ystyried ein cynigion i'w helpu i wella.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwella atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu drwy roi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am ei waith fel agendâu a chofnodion cyfarfodydd allweddol, ac ystyried ei brosesau ymgysylltu ac ymgynghori i annog cyfranogiad ehangach e.e. Facebook a Twitter;
- ceisio ehangu amrywiaeth ei weithlu drwy werthuso'n llawn effaith y mentrau a gynhaliwyd ganddo hyd yn hyn i gyflawni targedau cysylltiedig;
- nodi sut y gellir defnyddio'r Adolygiad Datblygu Perfformiad yn fwy cyson ym mhob rhan o'r sefydliad;
- datblygu ymhellach ei ddull o ymgysylltu â'r gweithlu.

**Cynigion newydd**

Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- datblygu amcanion gwella a mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig sy'n:
  - ei alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymuned;
  - dangos sut y mae'r Awdurdod yn perfformio nawr, ei dargedau a sut y mae'n cymharu â'r awdurdodau tân ac achub eraill.
- sicrhau y caiff newidiadau i brosesau yn yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol a gwendidau yn y wybodaeth reoli sydd ar gael eu blaenoriaethu.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.[3]

3 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol; ac
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn/allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad/Adroddiadau Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer ei waith archwilio perfformiad a wnaed i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae dau ddarn pwysig o gyfraith yn ymwneud ag awdurdodau tân:

**Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu amddiffyn bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd ac achosion brys eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

**Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y rhannau cyffredin o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n gosod cyfrifoldeb ar y rheini sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau bod risgiau'n cael eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[4] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a diweddaru'r asesiad yn barhaus. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan awdurdodau tân ac achub a disgwylir iddynt lunio cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

**Deddf Argyfyngau Sifil 2004**

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all gyflawni heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio fel Ymatebwyr Categori 1 ac felly mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu; a

4 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwyr neu'n weithiwr hunangyflogedig â safle busnes, yn gyfrifol am ran o annedd a gaiff ei defnyddio at ddibenion busnes yn unig, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractiwr sy'n gyfrifol mewn rhyw ffordd am unrhyw safle, yn darparu llety i bobl sy'n talu.

- chydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydlynu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â'r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono yn seiliedig ar yr etholwyr cofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 24 o gynghorwyr o'r 10 awdurdod unedol yn Ne Cymru:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (un aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (dau aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (tri aelod)
- Cyngor Dinas Caerdydd (pum aelod)
- Cyngor Sir Fynwy (dau aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (un aelod)
- Cyngor Dinas Casnewydd (dau aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (pedwar aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (tri aelod)
- Chyngor Bro Morgannwg (dau aelod)

Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal.

Cadeirydd Presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Anthony Ernest.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gefnogi gan dri phrif bwyllgor, sef y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb, y Pwyllgor Safonau a nifer o weithgorau. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion trafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan A Marles, y Prif Swyddog Tân â chymorth y tîm rheoli corfforaethol.

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan yr Awdurdod ei hun yn www.southwales-fire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.

# Atodiad 3

## Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Awst 2010.

Mae arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau corfforaethol cadarn ar waith sy'n sail gadarn i wella perfformiad.

**Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Awdurdod wedi gwella tryloywder ac effeithiolrwydd ei ddull o sicrhau gwelliant:

- cyn 2008 roedd trefniadau'r Awdurdod yn draddodiadol gyda rhai gwendidau allweddol yn arbennig o ran llywodraethu;
- mae dulliau arwain agored drwy gonsensws wedi arwain at welliant sylweddol gyda ffocws cryfach ar gynllunio strategol a phrosesau busnes effeithiol; ac
- mae trefniadau'r Awdurdod yn rhoi llwyfan da i wella gwasanaethau.

**Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella**

Mae defnydd da o adnoddau a gwybodaeth briodol yn cefnogi dull gweithredu strategol clir ac arweinyddiaeth effeithiol:

- mae'r Awdurdod yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol, gan sicrhau bod ei ddewisiadau strategol yn cael eu llywio gan wybodaeth reoli gywir ac amserol;
- mae aelodau ac uwch swyddogion yn rhoi arweinyddiaeth glir a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi gwelliant ond gellid gwella atebolrwydd cyhoeddus;
- mae cydweithio wedi'i ddatblygu'n dda ond mae partneriaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar allu ac adnoddau nad ydynt wedi'u gwerthuso'n llawn eto o ran canlyniadau i'r gymuned; ac
- er bod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â natur ei weithlu yn y dyfodol, mae heriau o ran sicrhau bod staff yn deall y rhaglen newid a gynllunnir ar gyfer y sefydliad a'u bod yn rhan o'r broses o'i gweithredu.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

**Cydymffurfiodd Awdurdod Tân De Cymru â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2010 cyflwynais farn archwilio amodol ar y datganiadau cyfrifyddu. Fel yn 2008-09, deilliodd y farn amodol o anghytundeb ynghylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer balansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod a'r rhai a glustnodwyd.

Roedd fy adroddiad yn amodol oherwydd cafwyd cyngor cyfreithiol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod proses archwilio'r cyfrifon yn 2007-08 a gadarnhaodd nad yw'r fframwaith statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu'n unol ag ef yn darparu ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn sydd wedi cronni yn sgîl cyfran briodol dros ben o wariant net ei awdurdodau cyfansoddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dewisodd yr Awdurdod beidio ag addasu ei gyfrifon i ddiddymu'r balansau a ddaliwyd yn flaenorol o fewn cronfeydd wrth gefn o'r fath ac ailddosbarthu'r symiau fel rhwymedigaethau cyfredol (symiau a ddelir ar ran awdurdodau cyfansoddol). Arweiniodd hyn at roi barn archwilio amodol ar y cyfrifon o ganlyniad i anghytundeb ar y driniaeth gyfrifyddu mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn.

Parhaodd yr Awdurdod â'i driniaeth gyfrifyddu yn 2008/09. Bellach mae'r ymgynghoriad i ddiwygio'r Gorchymyn Cyfuno er mwyn galluogi Awdurdodau Tân i gadw cronfeydd wrth gefn wedi'i gwblhau a chadarnhawyd y gall Awdurdodau Tân gadw cronfeydd wrth gefn o 1 Rhagfyr 2009. Fodd bynnag, nid oedd y diwygiad yn ôl-weithredol ac felly nodwyd camddatganiad nas cywirwyd yn y cyfrifon a arweiniodd at adroddiad archwilio amodol. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y meysydd canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella, gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr er bod mwy o le i wella yn y broses i ddiwygio'r cyfrifon ar gyfer addasiadau archwilio;
- gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig yn gywir mewn perthynas â'r Fenter Cyllid Preifat ond mae angen gwneud mwy o gynnydd i baratoi at weithredu IFRS yn 2010-11. Dylai'r Awdurdod geisio llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon IFRS, gan gynnwys cymariaethau, cyn gynted â phosibl; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw hefyd at y materion canlynol:

- mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi'u gweithredu, ond mae'r Awdurdod yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2010.
Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Virginia Stevens
KPMG LLP

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.southwales-fire.gov.uk. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

### Thema 1 - Ein Cymunedau

**Amcan Gwella - gostwng nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd**

Er mwyn sicrhau mai ei gymunedau yw'r lleoedd mwyaf diogel i fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau y cedwir lefelau marwolaethau ac anafiadau mor isel â phosibl ac er mwyn lleihau effeithiau ffisegol, cymdeithasol ac ariannol unrhyw golled a difrod dilynol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae ei broffil galwadau yn dangos mwy o weithgarwch gweithredol o ran damweiniau traffig ar y ffyrdd a disgwyliadau'r cyhoedd iddo ddarparu gwasanaethau achub i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau. Mae'r cyhoedd a'i staff yn disgwyl i'r Awdurdod gynnal ei hanes o godi safonau'r gwasanaethau a ddarperir.

Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu adeiladu ar waith blaenorol drwy wneud y canlynol:

- Cymryd camau rhagweithiol yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn gostwng ymhellach nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd.
- Defnyddio prosesau modelu risg Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân (FSEC) a data MOSAIC er mwyn nodi ardaloedd risg uchel yn seiliedig ar anheddau a demograffeg a sicrhau bod mentrau diogelwch yn cael eu targedu yn fwy effeithiol er mwyn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon posibl.
- Defnyddio unrhyw gynnydd mewn gallu ac adnoddau ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol.
- Ehangu ein trefniadau partneriaeth i weithio gydag asiantaethau eraill ledled Cymru er mwyn targedu ein gweithgareddau diogelwch tân yn y cartref at y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.
- Rhoi canlyniadau adolygiad o brosesau busnes yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol ar waith. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i leihau risg o fewn y cymunedau busnes mewn ffordd sy'n fwyfwy effeithiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol a cheisio gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn y cymunedau busnes hynny.
- Defnyddio dulliau ymateb mwy deallus.
- Cefnogi'r fenter i sicrhau y caiff yr holl dai newydd eu hadeiladu â systemau chwistrellu domestig.
- Adolygu ein cyfres o weithdrefnau gweithredu safonol a chynlluniau tactegol.

**Sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a fu'n llwyddiannus?**

- Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau.
- Gostyngiad yn nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd.
- Lleihad yn nifer yr achosion y mae'n rhaid ymateb iddynt.

### Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud i'w gymunedau?

Nod yr Awdurdod yw cymunedau â dim marwolaethau a dim anafiadau o ganlyniad i danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd; bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod cymunedau'n fwy diogel ond hefyd yn lleihau'r costau cymdeithasol ac economaidd ehangach i deuluoedd pan fo rhywun yn cael ei ddal mewn digwyddiad o'r fath. Gall mentrau diogelwch ar y ffyrdd llwyddiannus hefyd helpu i leihau'r gost economaidd i fusnesau o ganlyniad i ffyrdd wedi cau, oedi neu gerbydau a gaiff eu dal mewn damweiniau.

## Thema 2 - Ein pobl

### Amcan Gwella - parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n arddel ein hegwyddorion

Mae'r Awdurdod yn cydnabod er mwyn parhau i fod yn llwyddiannus mae angen y bobl iawn arnom a chanddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol sy'n briodol i anghenion y gwasanaeth. Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi wynebu heriau o ran recriwtio gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau gwahanol rydym yn eu gwasanaethu, ac wrth iddo addasu i'r newidiadau economaidd presennol mae'r gronfa recriwtio bosibl yn wynebu pwysau a grymoedd marchnad gwahanol. Ar yr un pryd mae'n monitro'r proffil ymddeol ac yn gwybod bod angen iddo adeiladu gwybodaeth yn y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol ar waith. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- Gweithredu'r Strategaeth Pobl.
- Defnyddio'r gweithlu'n greadigol er mwyn sicrhau busnes.
- Ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd a'i weithlu presennol.
- Gweithredu'r Siarter Aelodau.

### Sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a fu'n llwyddiannus?

- Staff â chymwysterau priodol wedi'u penodi.
- Cynllun ar gyfer rheoli staff sy'n gadael ac yn ymuno â'r sefydliad.
- Llwyddo i lunio rhestrau byr o ymgeiswyr priodol ar gyfer pob swydd wag.
- Cyflawni targedau'r dangosyddion perfformiad cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud i'w gymunedau?

Drwy gyflawni'r amcan hwn bydd yr Awdurdod yn parhau'n wasanaeth y gellir ymddiried ynddo â gweithlu cymwys, sy'n gallu cynnal gwasanaeth cyhoeddus ar adeg o alw mawr ac amgylchiadau eithriadol. Byddwn yn parhau i ymateb i anghenion y gymuned a galw cyfnewidiol ac yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth proffesiynol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Thema 3 - Ein hadnoddau

**Amcan Gwella - sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod os na fydd yn adolygu ei drefniadau ar gyfer dyrannu adnoddau a'i brosesau busnes er mwyn sicrhau eu bod yn cael defnyddio yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol, y gallai hyn gael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Dengys ymchwil fod newidiadau i batrymau shifftiau a lefelau staffio yn gallu gostwng costau staffio heb amharu ar y gwasanaeth tân a ddarperir i'r gymuned. Hefyd dewiswyd lleoliad y gorsafoedd presennol ar sail anghenion y tair Brigâd flaenorol ac mae'r asedau ffisegol hyn yn heneiddio ac mae angen eu cynnal a'u cadw. Ers 1996 cafwyd lleihad sylweddol yng nghyfradd galwadau a llwyth gwaith rhai gorsafoedd felly mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen addasu a moderneiddio er mwyn bodloni'r galw presennol a disgwyliadau'r cyhoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- Gwneud y defnydd gorau o asedau drwy roi proses reoli mwy effeithiol ar waith drwy raglen adnewyddu cerbydau ac olrhain asedau.
- Datblygu'r rhaglen cynnal a chadw eiddo adweithiol.
- Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2010/2014.
- Cynnal adolygiad lefel uchel o gyfraniad pob gorsaf i ddiogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân a nodi'r meysydd hynny lle y dylid cynnal dadansoddiad manylach.
- Archwilio effeithiolrwydd yr holl gyfarpar pwmpio eilaidd a'r angen amdanynt yn y dyfodol gan gynnwys lleoliad, data am ddigwyddiadau, cyfradd galwadau a threfniadau criwiau.
- Archwilio effeithiolrwydd pob cyfarpar arbennig gan gynnwys data am ddigwyddiadau, lleoliad, cyfraddau galwadau a threfniadau criwiau.

**Sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a fu'n llwyddiannus?**

- Gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw adweithiol a chynnydd mewn prosiectau cynnal a chadw a gynllunnir.
- Cynnal neu ostwng nifer proffiliau risg Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân ar ôl ailddyrannu adnoddau.
- Nodi arbedion effeithlonrwydd posibl ac olrhain a monitro unrhyw arbedion a wneir yn ystod y flwyddyn.

**Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud i'w gymunedau?**

Bydd cyflawni'r amcan hwn yn caniatáu i'r Awdurdod gynnal dadansoddiad mwy addas o'r risg a wynebir gan y cymunedau gwahanol ledled De Cymru, gan gydnabod bod gan ardaloedd gwahanol anghenion gwahanol, a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol ac ymateb i ddigwyddiadau mewn ffordd gost-effeithiol. Bydd gorsafoedd tân modern yn addas at y diben ac yn gyfleusterau cymunedol hygyrch lle y bo'n briodol.

## Thema 4 - Ein Sefydliad

**Amcan Gwella - gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewnol gan sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwerth am arian i bobl De Cymru drwy sicrhau bod y gwasanaethau mewnol a ddarperir mor syml ac effeithiol â phosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- Adolygu a symleiddio systemau a phrosesau'r gwasanaethau cymorth er mwyn nodi lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd.
- Hyfforddi rheolwyr canol ar y model meddwl drwy systemau i'w galluogi i gael yr adnoddau a'r systemau i ysgogi newid a gwelliannau yn eu meysydd eu hunain.
- Nodi a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd a allai godi o ganlyniad i heriau i strwythurau'r sefydliad a gwasanaethau mewnol.
- Cwmpasu adolygiad TGCh mawr.

**Sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a fu'n llwyddiannus?**

- Arbedion y gellir eu nodi a gaiff eu holrhain drwy gydol y flwyddyn.
- Daw gwasanaethau mewnol yn fwy ymatebol.

**Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud i'w gymunedau?**

O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, bydd staff gweithredol rheng flaen yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ymatebol a mentrau cymunedol ataliol â llai o gostau wedi'u priodoli i'r gwasanaethau mewnol sy'n eu cefnogi. Bydd hyn yn darparu gwerth gwell am arian i gymunedau De Cymru ac yn sicrhau na fydd unrhyw effaith ar y gwasanaethau a ddarperir wrth i gyllid ddod o dan bwysau cynyddol yn y blynyddoedd i ddod.

## Thema 5 - Cynaliadwyedd

**Amcan Gwella - hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau**

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i weithio i ddiogelu ei gymunedau a'i amgylchedd o ran lleihau effaith gweithgareddau gweithredol a busnes arferol, er enghraifft drwy'r ynni y mae'n ei ddefnyddio, y ffordd y mae'n prynu a sut y mae'n rheoli ei wastraff.

Mae'n ymwybodol o'r effaith y gall colli adnodd cymunedol megis ysgol neu fusnes o ganlyniad i dân ei chael ar ddinasyddion lleol ac economi'r ardal. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynlluniau sy'n meithrin gallu cymunedol drwy gynlluniau ieuenctid a thrwy weithio gydag oedolion agored i niwed, a'r effaith a gaiff hynny, er mwyn helpu i atal y costau economaidd ac amgylcheddol a ddaw o ganlyniad i ddigwyddiadau megis tanau bwriadol, tanau gwyllt, cerbydau a adawyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- Cynnal mentrau addysg cymunedol â grwpiau ieuenctid ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Diwygio pob dogfen angenrheidiol i sicrhau eu bod yn ymgorffori lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy.
- Adolygu ei Gynllun Tir ac Adeiladau.
- Cynyddu'r defnydd o ddulliau ymateb deallus er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn amserol ac yn lleihau effaith tanau o ganlyniad i hyn.
- Gweithio mwy gyda sefydliadau partner er mwyn cyflawni cydamcanion a sicrhau bod cymunedau'n fwy diogel.
- Targedu profion diogelwch tân yn y cartref mewn ardaloedd lle nodwyd risgiau.
- Gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn i orsafoedd tân fod yn lleoedd diogel a chynaliadwy i weithio ynddynt ac, mewn sefyllfaoedd priodol, yn gyfleuster at ddefnydd y gymuned hefyd.

**Sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a fu'n llwyddiannus?**

- Bydd yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu mewn cynlluniau gwasanaeth ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.
- Ffurflenni ystadegau.

**Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud i'w gymunedau?**

Bydd gweithredu'r ymrwymiadau hyn yn llwyddiannus yn sicrhau bod yr Awdurdod yn fwy effeithlon ac yn gallu cynnal y gyllideb a amlinellwyd yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn well. Wrth iddo ddod yn fwy effeithlon, a pharhau i ddarparu'r un lefel o wasanaeth, bydd cymunedau'n cael gwerth gwell am arian. Yn ogystal â hyn, bydd yn chwarae ei ran i helpu i sicrhau bod ei gymunedau yn lleoedd mwy diogel a chanddynt amgylcheddau adeiledig a naturiol mwy dymunol. Gall leihau effaith amgylcheddol tanau a damweiniau traffig ar y ffyrdd, o ran y difrod a achosir gan danau neu danwydd yn gollwng a hefyd drwy'r defnydd a wna o ddŵr, os bydd nifer y digwyddiadau yn lleihau o ganlyniad i'n mentrau diogelwch rhagweithiol. Hefyd os bydd llai o ddigwyddiadau i ymateb iddynt ac os lleolir ein hadnoddau yn agosach at ardaloedd risg uwch yna gallwn leihau effaith amgylcheddol symudiadau cerbydau ac ymatebion i ddigwyddiadau.

# Atodiad 6

## Crynodeb o ganfyddiadau'r Tîm Asesu Cymheiriaid

### Adolygiad o Iechyd, Diogelwch a Lles (hydref 2009)

**Trefniadau Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Canfu'r Tîm Cymheiriaid fod trefniadau effeithiol wedi'u diffinio'n glir ar waith, a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd ar ôl adolygu systemau Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth. Arweiniodd hyn at Strategaeth Iechyd a Diogelwch (a gaiff ei hadolygu'n ffurfiol bob tair blynedd) a ategir gan bolisïau cysylltiedig (a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd).
- Mae'r Tîm Cymheiriaid yn cydnabod ymrwymiad Cyfarwyddwyr a'r Awdurdod i ddatblygu Iechyd, Diogelwch a Lles yn barhaus, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Lleihau Risg.

**Strwythurau a Threfniadau Rheoli i Gefnogi Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Mae'r strwythurau a'r trefniadau presennol yn adlewyrchu canllawiau arfer gorau ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch yn llwyddiannus e.e. Polisi Iechyd a Diogelwch, strwythurau Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch, monitro gweithredol ac ymatebol ac ati.
- Mae'r Tîm Iechyd Galwedigaethol yn gwneud cyfraniad sylweddol i drefniadau rheoli cyffredinol Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gwasanaeth.
- Canfu'r Tîm Cymheiriaid enghreifftiau i ddangos bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drefniadau cyffredinol Iechyd, Diogelwch a Lles y sefydliad yn brin ar lefelau goruchwylio ac yn is. Mae hyn yn awgrymu rhywfaint o ansicrwydd o ran i ba raddau y caiff trefniadau Iechyd, Diogelwch a Lles eu rhoi ar waith yn llawn ym mhob lefel o'r Sefydliad.

**Cynlluniau, Targedau, Gweithdrefnau ac Arferion Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cynlluniau, targedau heriol, gweithdrefnau ac arferion o ran Iechyd a Diogelwch.
- Nodwyd meysydd i'w datblygu gan y Gwasanaeth ac mae Cynllun Gwella yn cynnwys camau gweithredu ac argymhellion (â swyddogion wedi'u henwebu i fod yn gyfrifol amdanynt) a fydd yn atgyfnerthu ymhellach y diwylliant Iechyd a Diogelwch sydd eisoes yn gadarnhaol.
- Nododd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid yr ymdrechion a wnaed gan y Gwasanaeth i sicrhau bod data am berfformiad Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddefnyddio i wella safonau diogelwch yn barhaus. Fodd bynnag, nid oedd y tîm yn gallu nodi'n hawdd unrhyw achos lle'r oedd data o'r fath wedi dylanwadu ar y Strategaeth Iechyd a Diogelwch a'r Cynllun Gwella presennol.

**Mesur a Gwerthuso Gweithgareddau Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Mae gan y Gwasanaeth amrywiaeth eang o ddulliau ar gyfer cofnodi perfformiad o ran Iechyd a Diogelwch a chaiff canlyniadau eu rhannu drwy systemau cyflwyno adroddiadau ffurfiol a chyfarfodydd pwyllgorau allweddol.
- Nodwyd bod tuedd am i law o ran ymddeoliadau oherwydd salwch a damweiniau ac anafiadau dros nifer o flynyddoedd. Nid oedd yn glir i'r Tîm sut roedd data yn dylanwadu ar newidiadau i bolisïau a strategaethau Iechyd a Diogelwch.

## Adolygiad o Iechyd, Diogelwch a Lles (Hydref 2009)

**Polisïau Hyfforddi, Datblygu ac Asesu (HDA)**

- Bu ymgynghori helaeth i lunio Strategaeth a pholisïau cysylltiedig yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol. Caiff y strategaeth hon ei gwella ymhellach o ddilysu'r broses ADC.

**Strwythurau a Threfniadau Rheoli i Gefnogi HDA**

- Mae strwythurau a threfniadau'n bodoli i gefnogi prosesau hyfforddi, datblygu ac asesu.
- Mae amrywiaeth eang o raglenni hyfforddi a chyfleoedd realistig yn bodoli er mwyn sicrhau bod personél yn datblygu ac yn cynnal eu cymwyseddau yn unol â mapiau rôl/swydd ddisgrifiadau.
- Nodwyd y cyflwynwyd cymwysterau NVQ ar gyfer staff dyletswydd yn ôl galw, ac mae'r Sefydliad wedi cydnabod yr angen am gymorth ychwanegol.

  Canfu'r tîm fod y broses PDR yn nodi anghenion hyfforddi ac yn mesur perfformiad yn y gweithle ond bod anghysondebau o ran ei chymhwyso yn tanseilio'r Strategaeth Dysgu a Datblygu yn gyffredinol.

**Cynlluniau, Targedau, Gweithdrefnau ac Arferion HDA**

- Mae data o waith ymgynghori wedi helpu i lywio strategaeth Dysgu a Datblygu y dyfodol.
- Eir i'r afael â chymwyseddau craidd drwy raglenni hyfforddi strwythuredig a chaiff hyn ei ategu gan ganllawiau gan ORM a chanlyniadau Iechyd a Diogelwch. Ffactor dylanwadol arall yw'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gymunedol.

**Mesur a Gwerthuso Gweithgareddau HDA**

- Mae defnyddio'r Tîm Datblygu ac Adolygu Gweithredol (ODART) yn darparu gwybodaeth amser real sy'n llywio amcanion hyfforddi'r dyfodol ac yn dylanwadu arnynt, gan gynnwys ar gyfer rhanddeiliaid allanol. Mae'r Gwasanaeth wedi nodi y byddai'r ddarpariaeth hyfforddi yn cael budd o broses werthuso ac adborth mwy effeithiol.
- Mae systemau adborth a chyflwyno adroddiadau yn bodoli ar gyfer y broses PDR, fodd bynnag, gall diffyg ymgysylltu o du rhai rheolwyr llinell gyfyngu ar y gwaith hwn.
- Mae proses NVQ sefydledig yn bodoli, a gaiff ei dilysu'n allanol ac sy'n helpu i ddatblygu staff iwnifform.

## Adolygiad o Weithgarwch Rheoli Risgiau Cymunedol a Diogelwch Cymunedol (Hydref 2010)

### Rheoli Risg yn y Gymuned

*'A yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned?' Roedd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid wedi gallu cadarnhau bod yr Awdurdod yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned.*

- Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddigon o setiau data i'w alluogi i nodi ystod o risgiau.
- Nododd PAT fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi llywio'r broses o ddatblygu Cynllun Lleihau Risg 2011-12 o ran blaenoriaethu adnoddau. Cafodd hyn ei gyfleu i aelodau'r Awdurdod Tân er mwyn llywio eu prosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae dull gweithredu'r Awdurdod o ran datblygu Cynlluniau Lleihau Risg yn datblygu wrth i anghenion y sefydliad newid ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen adlewyrchu hyn yn y ffordd y mae'n datblygu cynlluniau lleihau risg yn y dyfodol.
- Mae'r Awdurdod yn cynnal gweithdai gwella sy'n llywio cam datblygu'r cynllun lleihau risg ac yn cynnal sioeau cyfathrebu teithiol i ymgynghori â staff er mwyn llywio'r gwaith hwn ymhellach a nodi meysydd risg.
- Ymddengys na chynhaliwyd adolygiad ffurfiol o'r broses o ddatblygu Cynlluniau Lleihau Risg er bod tystiolaeth o blaid parhau i adolygu'r broses ddatblygu yn anffurfiol drwy ddatblygu ac ehangu darpariaeth sioeau teithio'r Cynlluniau Lleihau Risg.
- Canfu PAT dystiolaeth bod data yn cael ei rannu rhwng Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac adrannau mewnol.

### Diogelwch Cymunedol

*'A oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau Diogelwch Cymunedol yn unol â risgiau a blaenoriaethau a nodwyd?' Roedd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid wedi gallu cadarnhau bod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch cymunedol yn unol â risgiau a blaenoriaethau a nodwyd.*

- Er nad oes gan yr Awdurdod ddogfen Strategaeth Diogelwch Cymunedol, mae cyfeiriad strategol o ran Diogelwch Cymunedol ymhlyg yn Amcanion Strategol y Sefydliad a geir mewn cynlluniau swyddogaeth unigol/cynlluniau adrannol.
- Mae'r Awdurdod wedi gostwng y gyfradd anafiadau a marwolaethau o ganlyniad i dân. Roedd yr ystadegau'n cael eu gwirio'n barhaus i fonitro tueddiadau a pherfformiad.
- Caiff gweithgarwch Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol ei dargedu ar lefel leol drwy MOSAIC ond ni welodd PAT dystiolaeth ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Nododd PAT dystiolaeth i awgrymu y gallai oriau Diogelwch Cymunedol cadarnhaol a ddyrannwyd i staff dyletswydd yn ôl galw gael eu defnyddio mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn cynyddu allbwn ac effeithlonrwydd.

- Nododd PAT y gwaith a wnaed i gytuno ar arian CLG i bartneriaid gynnal Profion Diogelwch Tân yn y Cartref, fodd bynnag, canfu PAT fod cynnwys y CLG yn cyflwyno risg bosibl i'r sefydliad.
- Ymddengys fod prosesau nodi, rheoli a monitro Profion Diogelwch Tân yn y Cartref ac yn arbennig atgyfeiriadau 'risg uchel' ar lefel gorsaf yn anghyson.
- Canfu PAT fod yr amrediad o bartneriaid a gafodd eu cyfweld yn awyddus i gyflwyno tystiolaeth anecdotaidd o ganlyniadau cadarnhaol ac adborth yn deillio o'u profiadau o weithio gyda'r Awdurdod.

# Atodiad 7

## Cyfeiriadau

Daw'r data y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o un o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau, Adroddiadau a Chynlluniau Gwella yr Awdurdod Gwella ei hun
- Sicrwydd Gweithredol Adroddiad Asesu Cymheiriaid Cyflawni Gwasanaethau 2009-10 a 2010-11
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Arolwg Iechyd Cymru 2008-2009